

Mae Deddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i rieni sicrhau bod plant o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg llawn amser effeithlon.

Mae'r gyfraith yn dweud bod rhieni / gofalwyr y mae eu plant, o oedran ysgol gorfodol, yn absennol o'r ysgol heb reswm da yn cyflawni trosedd.

Gall yr Awdurdod Addysg Lleol roi rhybudd cosb benodedig am absenoldeb heb awdurdod.

Gellir rhoi rhybudd cosb benodedig i fyfyrwr sydd â 10 absenoldeb heb awdurdod. Bydd bod yn hwyr yn gyson yn cyfrif tuag at absenoldebau heb awdurdod.

Os telir o fewn 28 diwrnod, £60 yw'r ddirwy. Os telir wedi 28 diwrnod, ond o fewn 42 diwrnod £120 fydd y gosb. Os na thelir y gosb yn llawn erbyn y 43ain diwrnod, gellir cymryd camau cyfreithiol.

Dylech fod yn ymwybodol, er y byddwch, efallai, yn rhoi rheswm dros yr absenoldeb, mai'r ysgol sy'n penderfynu os cofnodir yr absenoldeb fel absenoldeb a awdurdodwyd neu fel un heb awdurdod.

Os hoffech drafod y mater hwn, cysylltwch â'r ysgol.

Bydd y trefniadau ar gyfer talu wedi eu nodi ar y rhybudd cosb ac ar wefan Cyngor Sir Gwynedd.

Bydd peidio â thalu rhybudd cosb yn sbarduno erlyniad o dan Adran 444 Deddf Addysg 1996. Ceir rhagor o fanylion yng Nghod Ymddygiad Lleol Cyngor Sir Gwynedd.

Os ydych yn ofni nad yw eich plentyn wedi mynd i'r ysgol, dylech ffonio'r ysgol ar unwaith.

Os oes gennych UNRHYW bryderon am bresenoldeb yn yr ysgol, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol neu â'r Swyddog Lles Addysg.

Gallwch gysylltu â'r Swyddog Lles Addysg drwy'r ysgol.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Phennaeth yr Ysgol neu â'r

**Adran Addysg Gwynedd,
Cyngor Gwynedd, Caernarfon
LL55 1SH**

Ffôn – 01766 771000

RHYBUDDION COSB BENODEDIG

Ar gyfer absenoldeb heb awdurdod o'r ysgol

*Po selocaf y bydd plant yn mynd i'r ysgol
Po fwyaf y byddant yn ei gyflawni*

"Mae prydiondeb a phresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hollbwysig ar gyfer dysgu'n llwyddiannus a hynny o'r adeg y bydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol."



Gwyliau

Ffeithiau am Bresenoldeb

Mae cyfanswm o 175 o ddiwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau ysgol mewn blwyddyn. Mae hyn yn rhoi cyfle i deuluoedd:

- Dreulio amser gyda'i gilydd
- Mynd ar ymweiliadau teuluol a diwrnodau allan
- Mynd ar wyliau
- Mynd i siopa
- Mynychu apwyntiadau rheolaidd

Ni roddir caniatâd i fyfyrwyr fod yn absennol oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Rhoddir caniatâd i unrhyw absenoldeb o'r fath yn ôl disgrisiwn y Pennaeth.

Mae cymryd gwyliau yn ystod y tymor yn effeithio o ddifri ar bresenoldeb eich plentyn ac yn ei dro ar eu cyrhaeddiad.

Os eir ar wyliau heb awdurdod, gallai hyn arwain at roi Rhybudd Cosb Benodedig i chi.

Dylid rhoi blaenoriaeth i fod yn bresennol. Os oes unrhyw broblemau, cysylltwch â'r ysgol ar unwaith.

Os yw presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol yn 100% byddant yn gallu gwneud y gorau o'r holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Mae plant sydd â phresenoldeb da iawn yn fwy tebygol o ennill 5 TGAU gyda graddau A i C neu gymwysterau cyfwerth.

Presenoldeb o 91.1% = colli 17 diwrnod o'r ysgol mewn un flwyddyn.

Mae colli 17 diwrnod mewn blwyddyn hefyd yn golygu gollwng 1 gradd TGAU (ar gyfartaledd)

Mae plant â phresenoldeb gwael yn llai tebygol o ennill 5 TGAU gyda graddau A * - C.

Presenoldeb o 82.1% = colli 34 diwrnod o'r ysgol mewn un flwyddyn.

Bydd presenoldeb gwael yn cael effaith ddifrifol ar addysg, moeseg gwaith a chyfleoedd bywyd.

Bydd myfyrwr a phresenoldeb o 90% ar ddiwedd y flwyddyn ysgol wedi colli pedair wythnos gyflawn o ysgol.

Byddai 90% dros 5 mlynedd yn yr ysgol uwchradd yn cyfateb i hanner blwyddyn ysgol.



Golau Coch
Colled ddifrifol o ddysgu sy'n debygol o gael effaith niweidiol ar **Cyflawniad a Chyfluoedd Bywyd** eich plentyn.

Golau Oren
Yn absennol o'r ystafell ddosbarth am hyd at dair wythnos a chollu swm sylweddol o addysg.

Golau Gwyrdd
Yn bresennol ar gyfer pob gwers a gweithgaredd cymdeithasol.

Pan fo modd dylid trefnu apwyntiadau meddygol a deintyddol y tu allan i oriau ysgol.